



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

**Ganolfan Datblygu Plant Woodlands
7 Pierces Square
Wreccsam
LL13 7NE**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/04/2018

Cyd-destun

Mae Canolfan Datblygu Plant Woodlands yn cynnig therapi ac addysg hynod arbenigol i fechgyn rhwng 11 a 18 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth a sylweddol.

Mae 18 o ddisgyblion, rhwng 13 a 18 oed, ar gofrestr yr ysgol. Mae gan ddeg o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae pob un o'r disgyblion yn blant sy'n derbyn gofal ac maent yn byw yng nghartrefi plant Woodlands yn yr ardal leol.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Wrecsam, gerllaw cyfleusterau hamdden ac amwynderau lleol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ehangu'r adeilad i wella'r cyfleusterau a chynyddu nifer yr ystafelloedd dosbarth.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers pedair blynedd ac mae'r ysgol wedi penodi pennaeth cynorthwyol yn ddiweddar i ymuno â'r uwch dîm arwain.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

- Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n dda yn y dosbarth ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u symbylu i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae llawer ohonynt yn cyflawni cymwysterau TGAU a Safon Uwch ac mae gan ychydig ohonynt gynlluniau pendant i fynd ymlaen i addysg uwch.
- Caiff addysg a lles disgyblion eu cefnogi'n dda trwy'r cydweithio agos rhwng y cartrefi gofal, y therapyddion, yr athrawon a'r cynorthwywyr cymorth ymddygiad. Mae hyn yn cyfrannu'n dda iawn at bresenoldeb a chyflawniadau disgyblion.
- Mae gan yr ysgol ffocws clir iawn ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol i staff ymweld â darparwyr eraill a menter 'cyd-anogaeth' i staff rannu a gwella'u harfer.
- Mae gan y perchennog, y pennaeth a'r uwch tîm arwain weledigaeth uchelgeisiol a chliir iawn i'r ysgol. Darparant ethos a diwylliant sy'n caniatáu i ddisgyblion deimlo'n ddiogel, gwneud cynnydd a datblygu medrau buddiol am oes.

Meysydd i'w datblygu

- Nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.
- Mae'r ysgol yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau hunanarfarnu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn addysgiadol ac yn cyfeirio'n addas at amrywiaeth eang o dystiolaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig feysydd, fel y cynnydd a wna disgyblion yn eu gwaith a safonau eu lles, nid yw'r adroddiad yn arfarnu'r wybodaeth hon yn ddigon da.
- Mae gan yr ysgol ystod gynhwysfawr o bolisïau sy'n llunio sylfaen gadarn ar

gyfer llawer o waith yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig bolisïau yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn cynnig canllaw cywir i arferion yr ysgol. Nid ydynt yn enwi staff sydd â chyfrifoldebau penodol na phwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y polisi ei hun. Nid yw ychydig bolisïau yn disgrifio'r gweithdrefnau i staff eu dilyn yn ddigon clir.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod y ganolfan yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003
- A2 Diwygio polisiau'r ysgol i sicrhau eu bod yn benodol i'r ysgol ac yn disgrifio gweithdrefnau i staff eu dilyn yn glir
- A3 Diwygio'r adroddiad hunanarfarnu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gwaith yr ysgol yn llawn, yn enwedig o ran cynnydd a chyflawniad disgyblion

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Diwygio polisiâu perthnasol i gynnwys cyfeiriad at ganllaw'r ddyletswydd Atal

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi diwygio'r polisi amddiffyn plant i gynnwys cyfeiriad priodol at y ddyletswydd Atal. Mae hyn yn cynnwys y camau a gymerir i liniaru risgiau i bobl ifanc yn yr ysgol gael eu radialeiddio. Mae staff wedi cael hyfforddiant perthnasol a diweddar. Fodd bynnag, nid oes canllawiau clir i staff ar sut i adnabod yr arwyddion rhybudd na pha gamau i'w cymryd os byddant yn amlygu problemau posibl.

Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod dull cyson o gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno logiau cynnydd sy'n galluogi disgyblion i fyfyrion ar eu dysgu eu hunain. Mae pob disgybl yn cymryd rhan yn yr adolygiad o dargedau ei gynllun dysgu unigol (CDU) ac mae'r ysgol wedi rhoi amser 'gwneud gwahaniaeth' ar waith i ddisgyblion fynd i'r afael ag awgrymiadau athrawon am welliannau. Mae disgyblion yn cofnodi beth aeth yn dda mewn gwersi a pha agweddau ar eu gwaith y mae angen eu gwella, ar daflenni newydd ar gyfer hunanasesu ac asesu cymheiriaid. Mae athrawon yn defnyddio'r strategaethau hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod yr adroddiad hunanarfarnu yn cyfeirio at, ac yn cysylltu â, disgyblion a'u deilliannau

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi gwella sut mae'n monitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae systemau cadarn ar waith i olrhain cynnydd disgyblion o gymharu â'u targedau yn eu CDUau, eu hagweddau at ddysgu a'u cyflawniad academaidd. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i roi cynlluniau dysgu unigol effeithiol i'r disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff arfarniad o'r wybodaeth hon ei gofnodi'n ddigon da yn yr adroddiad hunanarfarnu i adlewyrchu gwaith yr ysgol.

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig ar iechyd a diogelwch disgyblion sy'n ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a dylai'r polisi gyfrif am Arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru: 'Ymweliadau addysgol – Canllawiau diogelwch ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth' 2008 [3(2)(c)]
- Cynnal polisi ysgrifenedig boddhaol ar Gymorth Cyntaf a'i weithredu ar draws yr ysgol [3(6)]

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestrriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol	Canolfan Datblygu Plant Woodlands
Rhif yr ysgol	6656042
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	07/02/2018
Perchennog	Woodlands Limited
Staff	1 pennaeth, 8 athro; 1 goruchwylydd cyflenwi; 3 chynorthwydd cymorth ymddygiad; 2 diwtor addysg awyr agored; 2 diwtor hunangyflogedig rhan-amser
Nifer y disgyblion	18
Darpariaeth	Darpariaeth addysg 42 wythnos
Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer	Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.
Arolygiad Adran 163 diwethaf	01/07/2013
Arolygiad monitro blynyddol diwethaf	27/04/2016
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	